

Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council
Cyfarfod Misol / Monthly Meeting
Nos Lun 19eg Mai 2025 / Monday, 19th May 2025
Festri Tabernacle Festry, Pencader
8.00 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, H. Lewis, A. Davies, G. Jones, D. Griffiths, A. James, J. Jones, Anita Evans (Clerc/Clerk), C. Sir L. Evans

Ymddiheuriadau / Apologies: D. Davies, V. Davies, R. Thomas, W. Cole, PCSO Anwen Davies.

Absennol / Absent: -- neb/none

<p>1. Croeso: Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau.</p>	<p>1. Welcome: Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted.</p>
<p>2. Datgan diddordeb: neb</p>	<p>2. Declaration of interest: none</p>
<p>3. Adroddiad yr Heddlu – roedd SCCH Anwen Davies (Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) wedi ymddiheurio, ond wedi anfon adroddiad data misol. Gofynnodd A. Davies am anfon llun at y SCCH, o fan sydd wedi ei pharcio ar y ffordd fawr tu allan i dir Highway Garage. Mae'r Clerc wedi cysylltu â Go-Safe ynglyn â chyflymdra traffig drwy New Inn. Nid yw'r Heddlu yn gwneud hyn ar ein rhan mwyach.</p>	<p>3. Report from Police – an apology had been received from PCSO Anwen Davies; the monthly data had been received. A. Davies has taken a photograph of a van parked on the main road outside Highway Garage land. It will be sent to the PCSO. The Clerk has contacted the Go Safe van regarding the speed of traffic in New Inn. The Police do not report on our behalf.</p>
<p>4. Cofnodion Mis Ebrill (19.04.2025) - derbyniwyd fel cofnod cywir; cynigiwyd gan A. James, eiliwyd gan A. Davies.</p>	<p>4. Minutes of April Meeting (19.04.2025) – accepted as a true record; proposed by A. James, seconded by A. Davies.</p>
<p>5. Materion yn Codi:</p> <p>(i) <u>Cyngor Sir Gâr</u> - Adran Briffyrdd – wedi cydnabod derbyn ein cwynion diweddaraf.</p> <p>(ii) <u>Cyfleusterau Pencader ac Alltwalis:</u> bu trafodaeth ar y prisiau glanhau a dderbyniwyd. Cynigiodd J. Jones fod y Cyngor yn gosod blychau talu ar ddrysau bob ciwbicl, eiliodd D. Griffiths ac fe basiwyd. Byddwn yn chwilio allan am y gost.</p> <p>(iii) <u>Mynwent y Plwyf, Pencader</u> – mae'r coed o gwmpas yr Ardd Goffa wedi eu plannu. Diolch yn fawr i Mr. a Mrs T. Lewis am fynd i brynu'r coed, a hefyd dwrhau ar ôl plannu. Mae angen siarad ag un torrwr beddau ynglyn â'r dull o orffen beddau i gydymffurfio gyda gweddill y Fynwent ym Mhencader. Mae hefyd un bedd nad sydd yn cydymffurfio gyda rheolau'r Fynwent o ran cadw lle i dorri porfa yn glir. Ffioedd: bydd rhain yn codi J. Jones yn cynnig a D. Griffiths yn eilio. Ffioedd newydd o Fehefin 1af 2025: Agor bedd: £250.00; Claddu llwch: £200.00; Carreg newydd: £150.00; ail-lythrennu: £125.00.</p> <p>(iv) <u>Data wrth qefn:</u> cynigiodd A. Davies helpu'r Clerc i arbed data ar beiriant allanol.</p> <p>(v) <u>Hysbysfyrdau:</u> dim i'w adrodd.</p> <p>(vi) <u>Cyfeiriadau gwefan ac e-bost y Cyngor:</u> ystyriaeth bellach yng nghyfarfod Mis Gorffennaf.</p>	<p>5. Matters Arising:</p> <p>(i) <u>Carmarthen County Council</u> - Highways Department has confirmed receipt of our latest concerns.</p> <p>(ii) <u>Pencader</u> and Alltwalis Conveniences: there was a discussion on the cleaning costs received from 4 companies. J. Jones proposed that the Council place a payment box on all cubicles, D. Griffiths seconded and all agreed. Quotations will be requested.</p> <p>(iii) <u>Parish Cemetery, Pencader</u> - the planting of trees surrounding the Garden of Remembrance has been completed. Thanks to Mr .and Mrs. T. Lewis for making purchases, and for the watering. We need to speak to one gravedigger regarding the manner of finishing off graves, and that they must conform with the Cemetery rules. There is also one plot where the family needs to be contacted regarding breaking Cemetery rules whereby there must be clear ground for the mower. Fees: these will be raised- J. Jones proposed and D. Griffiths seconded. New fees: from 1st June2025 Opening a grave: £250.00 burial of ashes: £200 New headstone: £150.00: lettering: £125.00</p> <p>(iv) <u>Data back-up:</u> A. Davies offered to assist the Clerk with saving data on the external hard-drive..</p> <p>(v) <u>Noticeboards:</u> nothing to report.</p> <p>(vi) <u>Council's Web site and e-mail addresses:</u> will be reviewed by July.</p>

<p>(vii) <u>Cafn blodau yn Llanfihangel-ar-arth</u>: mae cais wedi ei dderbyn i symud y cafn blodau sydd o flaen Bro Teifi, Llanfihangel-ar-arth i safle arall yn y pentref. Bydd yr Is-Bwyllgor Safleoedd yn cyfarfod i drafod. Mae'r cafn yma yn cael ei gamdrin.</p>	<p>(vii) <u>Flower trough at Llanfihangel-ar-arth</u>: a request has been received to remove the planter in front of Bro Teifi, Llanfihangel-ar-arth to a different location in the village. The Premises Sub-Committee will meet to discuss. This planter has been vandalised.</p>
<p>6. Ariannol: Derbyniwyd y Fantolen Ariannol hyd at 30.04.2025 oddi wrth H. Lewis. Cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd gan A. James. Cytunwyd talu'r anfonebau canlynol: Astitium (wefan) £119.99; Clerc (costau ffôn 21.01.2025 – 28.03.2025) = £16.40 a 28.03.25 hyd 14.05.25 = £12.25; coed ar gyfer Mynwent Pencader: Coed Faerdre: £38.40; Trefhedyn £624.00; Canolfan Garddio Robert's Llambod £350.00; Clerc (Costau Teithio) 01.01.25 – 14.05.25 = £51.00. Cynnig A. Davies, eilio A. James.</p>	<p>6. Financial: The balance sheet for 30.04.25 was received from H. Lewis. It was passed as a true record; proposed by A. Davies; seconded by A. James. It was agreed to pay the following invoices: Astitium (website) £119.99; Clerc – telephone costs (21.01.25 to 28.03.25) = £16.40 and (28.03.25 to 14.05.25) = £12.25; trees for Pencader Cemetery: Coed Faerdre £38.40; Trefhedyn £624.00; Robert's Garden Centre, Lampeter £350.00. Clerk's travelling expenses 01.01.25 – 14.05.25 = £51.00. Proposed to pay A. Davies, seconded A. James.</p>
<p>7. Cynllunio: (wedi e-bostio i aelodau'r Is-Bwyllgor cynllunio - dim gwrthwynebiad): Ni wnaeth y Cynghorydd Sir L. Evans gymeryd unrhyw ran ym materion cynllunio. (1) Pantfen Isaf</p>	<p>7. Planning Matters: (e-mailed to Planning Sub-Committee Members - no objection): County Councillor L. Evans took no part in planning matters. (1) Pantfen Isaf</p>
<p>8. Swydd y Clerc: trefnwyd bod hysbysiad i'w osod yn rhifyn nesaf Clecs Bro Cader ym Mis Mehefin.</p>	<p>8. Vacancy for Clerk: it was agreed to place an advertisement in the June edition of Clecs Bro Cader.</p>
<p>9. Archwiliad Ariannol 2024-2025: Mae llythyr penodiad wedi ei dderbyn oddi wrth Mr. E. Jones ein cyfrifydd, ac mae'r Clerc wedi mynd â'r gwaith papur ato ar 19eg Ebrill, 2025.</p>	<p>9. Financial Audit 2024-2025: We have received a letter of engagement from our appointed accountant Mr. E. Jones, and the Clerk has delivered the annual paperwork on 19th April, 2025.</p>
<p>10. Dogfennaeth: (i) Model Reoliadau Ariannol diwygiedig (ii) Cynllun Bioamrywiaeth - ar waith Derbyniwyd dogfen (i) – cynigiwyd gan A. Davies, eiliwyd eiliwyd gan G. Jones. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau i ystyried blaenoriaethau ar gyfer eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol.</p>	<p>10. Documentation: (i) Revised Model Financial Regulations (ii) Biodiversity Plan – on-going. Document (i) was accepted - proposed by A. Davies, seconded by G. Jones. The Chairman asked members to consider priorities for the year ahead so they may be included in the Annual Report.</p>
<p>11. Gohebiaeth (wedi eu e-bostio i'r Cynghorwyr): i. Un Llais Cymru: (a) Dyddiadau Hyfforddiant (Ebrill - Mehefin 2025) (b) Rheoliadau Ariannol Diwygiedig. ii. Cyngor Sir Gâr: hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gael ar Zoom. iii. Openreach: ymgysylltu â'r gymuned am y band eang. Penderfynwyd gwahodd swyddog i'n cyfarfod mis Mehefin am 7.30 y.h. v. Elusen Kids' Cancer: llythyr o ddiolch am gyfraniad ariannol.</p>	<p>11. Correspondence (e-mailed to Councillors): i. One Voice Wales: (a) Training Dates (April – June 2025) (b) Revised Financial Regulations. ii. Carmarthen County Council: training for Code of Conduct available on Zoom. iii. Openreach Fibre Community Partnership: it was agreed to invite an officer to our June meeting at 7.30 p.m. iv. Kids' Cancer Charity: Letter of thanks for financial contribution.</p>
<p>14. Unrhyw Fater Arall (gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr / Clerc yn unig): A. Davies: Palmentydd yn wael ym Mhencader; coed wedi eu torri ar dir Farmer's Arms.</p>	<p>14. Any Other Business (information from Councillors and Clerk only): A. Davies: Pavements in Pencader are in a poor state; tree felling undertaken on land at Farmers Arms.</p>

<p>H. Lewis: wedi cael cymorth gan L. Parker i ddiweddarau tudalen gwefan y Cyngor; nodi fod y mapiau sy'n dod pan mae ffyrdd yn cau yn anodd iawn eu deall.</p> <p>A. James: arwydd 30 m.y.a. ar bwys Ffatri Bwyd Cwn Cambrian, Pencader wedi troi; bydd cofnodion cyfarfod pwyllgor Cyngorau Cymuned Green Gen yn cael eu hanfon at aelodau'r Cyngor.</p> <p>G. Jones: hewl cwm Glantweli Fach yn wael; arwyddion ffordd yn dal ar ôl wrth ymyl heolydd yn dilyn gwaith atgyweirio.</p> <p>Cynghorydd Sir L. Evans: cylch newydd ynglyn â ceisiadau ar gyfer Llwybrau Diogel yn y Gymuned wedi ei lansio.</p> <p>Clerc: Llanfihangel: coeden mewn teiar ar glôs Tafarn y Pwll Dŵr wedi tyfu ac yn amharu ar welediad traffig; cerrig mân gwyn yn cael eu codi o eiddo yn Llanfihangel-ar-arth a'u taflu ar y palmant a'r ffordd fawr - hyn yn fater o gonsŷrn; angen y glanhawr heolydd yn y pentre. New Inn: sbwriel ym maes parcio tafarn Travellers' Rest ers dros dwy flynedd er bod yr eiddo'n wag.</p>	<p>H. Lewis: has received assistance from L. Parker to update the Council's web page; wishes to note that when we receive notification of road closure, the maps are very difficult to interpret.</p> <p>A. James: 30m.p.h. road sign near Cambrian Pet Food premises has turned; minutes of the committee set up in the Teifi Valley to deal with Green Gen Pylons will be circulated to all Councillors.</p> <p>G. Jones: the minor road leading to Glantweli Fach and further is in a very poor state of repair; road signs remain at roadsides following completion of road repairs.</p> <p>County Councillor L. Evans: new round of applications re: Safe Route to Schools has been launched.</p> <p>Clerc: Llanfihangel: the tree in a tyre on Pwll Dwr pub land has grown and is a problem for drivers; decorative white stones picked up from a property at Llanfihangel-ar-arth and thrown on the pavement and main road - this a matter of concern; the road sweeper is needed in the village; New Inn: rubbish in Traveller's Rest car park remains although the property has been empty for over two years.</p>
<p>15. Dyddiad y Cyfarfod Misol Nesaf: Nos Lun, 16eg Mehefin, 2025.</p>	<p>15. Date of Next Monthly Meeting: Monday, 16th June, 2025.</p>

Gorffennwyd y Cyfarfod 9.55 y.h. / Meeting ended 9.55 p.m.